TAFLEN GWYBODAETH

# Byw mewn fflatiau a fflatiau deulawr

**Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth a phethau i'w hystyried os ydych yn byw yn un o fflatiau CCG neu yn meddwl dod yn denant mewn fflat.**

**Mae gennych hawl i fwynhau eich cartref mewn tawelwch ac mae gan eich cymdogion yr un hawl.**

## Niwsans Sŵn

Niwsans sy'n cael ei achosi gan sŵn yw un o'r prif bethau sy'n achosi anghydfod rhwng cymdogion mewn fflatiau.

Mae chwarae cerddoriaeth, gwrando ar y radio neu wylio'r teledu yn uchel yn bethau amlwg sy'n creu sŵn. Mae rhai tenantiaid yn cwyno hefyd am sŵn pan fydd llawr laminet wedi ei osod mewn fflatiau cyfagos. Ni fyddwn yn caniatáu gosod lloriau laminet heblaw mewn unedau sydd ar y llawr gwaelod.

Gall synau eraill gynnwys:

- refio ceir
- clepio drysau
- gweiddi yn y cyntedd a grisiau, yn enwedig yn y nos
- chwarae mewn mannau cyffredin
- sŵn o waith DIY (mae angen caniatâd CCG i wneud gwaith DIY)

Mae pobl yn disgwyl clywed rhywfaint o sŵn, ond ni ddylai cymdogion ddioddef sŵn difrifol neu niwsans gan gymdogion.

Mewn fflatiau a fflatiau deulawr efallai y bydd gennych gymdogion uwch eich pen, oddi tanoch ac ar bob ochr hefyd - mae'n bwysig felly ystyried eich cymdogion i gyd.

Os byddwch yn achosi niwsans i'ch cymdogion 'rydych yn torri amodau eich cytundeb tenantiaeth. Efallai y byddwch yn torri'r gyfraith hefyd.

Os oes gennych broblem gyda'ch cymydog y peth cyntaf i'w wneud yw siarad gyda nhw. Efallai nad ydyn nhw yn sylwi eu bod nhw yn achosi problem - felly byddwch yn gyfeillgar a pheidiwch â cholli eich tymer.

Os na fydd hyn yn datrys y mater ffoniwch ni ar 0300 123 8084.

## Mannau cyffredin

Mae pawb sy'n byw mewn bloc o fflatiau yn gyfrifol am gadw'r mannau cyffredin yn daclus a glân. Mae hyn yn cynnwys coridorau, cynteddau, grisiau a phen grisiau. Yn unol â'n Polisi Rheoli Tân ac i ddiogelu iechyd a diogelwch pawb mae rhaid i llefydd cyffredin yma fod yn glir bob amser.

Bydd pob man cyffredin yn cael ei archwilio yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn glir.

Cyn derbyn tenantiaeth mewn bloc bydd angen i chi ystyried bod rhaid cadw beiciau, pramiau ac ati yn y fflat neu mewn lle priodol sydd wedi ei ddynodi. Os bydd eitemau fel hyn yn cael eu gadael mewn llefydd cyffredin, byddwn yn trefnu eu bod yn cael eu symud. Byddwch chi'n gyfrifol am bob cost sydd wedi ei greu.

## Anifeiliaid anwes

Os oes gennych anifail anwes sicrhewch eich bod chi'n berchennog cyfrifol a gwnewch yn siŵr nad yw unrhyw un o'ch anifeiliaid yn achosi niwsans i'ch cymdogion.

Am gyngor pellach ar fod yn berchen anifail anwes ffoniwch ni ar 0300123 8084 neu lawr lwythwch gopi o'n taflen 'Perchnogaeth Anifeiliaid Anwes' neu 'Meddwl Cadw Anifail Anwes' oddi ar ein gwefan www.ccgwynedd.org.uk a chlicio ar 'Taflenni Gwybodaeth'.

*Yn parhau drosodd >>*

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

TAFLEN GWYBODAETH

# Byw mewn fflatiau a fflatiau deulawr

## Diogelwch

Rydym yn darparu systemau mynediad yn y mwyafrif o flociau o fflatiau fel mai dim ond tenantiaid a'u hymwelwyr all ddod i mewn.

Mae angen i chi helpu i gadw'r fflatiau yn ddiogel, pheidiwch â:

- rhoi rhywbeth yn y drws i'w gadw'n agored, gan gynnwys drysau tân mewnol
- gadael y drws yn agored am unrhyw reswm
- gofyn i gymdogion adael ymwelwyr i mewn i chi
- gadael rhywun nad ydych yn adnabod i mewn i'r adeilad

## Rhestr wirio ar gyfer byw mewn fflatiau

Os ydych yn byw mewn fflat mae'n bwysig cofio bod beth ydych chi yn ei wneud yn effeithio ar eich cymdogion. Felly cofiwch:

- [ ] peidiwch â gwneud gormod o sŵn, yn enwedig yn ystod y nos neu yn gynner yn y bore
- [ ] gadw ardaloedd cymunedol a chyffredin yn lân a thaclus
- [ ] peidiwch â gadael unrhyw eitemau yn y man cyffredin
- [ ] gadw anifeiliaid anwes o dan reolaeth
- [ ] ystyried eraill a bod yn gymydog da
- [ ] sicrhau bod systemau mynediad yn cael eu parchu
- [ ] adrodd am unrhyw ddifrod neu rywbeth sydd angen ei drwsio yn y man cyffredin i ni
- [ ] bod yn gyfarwydd â threfniadau tân

## Am fwy o wybodaeth

Cysylltwch gyda ni ar **0300 123 8084**, ymholiadau@ccgwynedd.org.uk neu ewch i'n gwefan www.ccgwynedd.org

**Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel llythrennau bras neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.**

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

# Living in Flats and maisonettes

**This fact sheet provides information and things you should consider if you live in one of CCG's flats or are considering becoming a tenant in a flat .**

**You have the right to enjoy your home in peace and quiet, and your neighbours have the same right.**

## Noise nuisance

Nuisance caused by noise is the main reason for conflict between neighbours in flats.

Playing loud music, listening to the radio and watching television are obvious sources of noise. Some tenants complain of noise where laminate flooring has been fitted in adjoining flats. We do not allow laminate floors except in ground floor units.

Other sources include:

- revving cars
- slamming doors
- shouting in the hallways and stairs, particularly at night
- playing in communal areas
- noise from DIY work (you need CCG's approval to carry out any DIY)

A certain amount of noise is to be expected, but neighbours should not have to suffer serious noise nuisance from neighbours.

In CCG flats you may have neighbours above and below you as well as either side – it is important to show consideration for all your neighbours.

If you cause a nuisance or annoy your neighbour you are breaking the terms of your tenancy agreement. You may also be breaking the law.

If you have a problem with your neighbour the first thing you should do is talk to them. They may not realise that they are causing a problem – so be friendly and do not lose your temper. If this does not resolve the issue, contact us on 0300 123 8084.

## Communal areas

Everyone living in blocks of flats are responsible for keeping communal areas clean and tidy. This includes the communal areas, hallway, stairs and landing. In accordance with our Fire Management Policy, and to safeguard everyone's health and safety these areas must be kept clear at all times.

All communal areas are inspected regularly to ensure that they are kept clear.

Please consider before  you accept a tenancy within a block  that items such as bikes, prams and pushchairs must be kept within the flat or in a designated facility where provided. If items like these are left in the communal areas, arrangements will be made for them to be removed. You will be responsible for all costs incurred.

## Pets

Please be a responsible pet owner and make sure that your pets aren't a nuisance or annoying  to your neighbours.

For further advice on owning a pet, contact us on 0300 123 8084 or visit our website www.ccgwynedd.org.uk to download a copy of our 'Pet Ownership' or 'Thinking of keeping a pet?' fact sheets.

*Continues >>*

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

# Living in Flats and maisonettes

## Security

We provide door entry systems on most of our blocks of flats so that only tenants and their visitors can get in.

Please help keep the flats safe and don't:

- wedge doors open, including internal fire doors
- leave the door open for any reason
- ask neighbours to let visitors in for you
- let someone you don't know into the building

## A checklist for living in a flats

If you live in a flat or maisonette, it is important to bear in mind that what you do affects your neighbours. So please remember:

- [ ] not to make too much noise, especially at night or early in the morning
- [ ] keep the shared areas clean and tidy
- [ ] don't leave any items in the communal areas
- [ ] keep pets under control
- [ ] be a considerate and good neighbour
- [ ] to secure door entry systems are respected
- [ ] to report any damage or maintenance issue to us
- [ ] to be familiar with fire arrangements

## For more information

Contact us on **0300 123 8084**, enquiries@ccgwynedd.org.uk or visit our website www.ccgwynedd.org

**If you would like to receive this leaflet in a different format, such as Braille, large text or in another language, contact us on 0300 123 8084.**

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD